Arolygu darpariaeth addysgol ar gyfer plant cyn oed ysgol gorfodol

Adroddiad meithrin ar:

Cylch Meithrin Thomas Ellis

Arolygydd Addysg Feithrin Cofrestredig: Jean Marshall

Dyddiad yr arolygiad: 9 a 10 Chwefror 2009 (boreau)

Rhif y Contract: T/031/08N

Hawlfraint y Goron 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Adroddiad ar arolygu lleoliadau meithrin yn y sector nas cynhelir

Enw'r lleoliad:	**Cylch Meithrin Thomas Ellis**
Cyfeiriad:	**Ysgol Y Parch Thomas Ellis Maeshyfryd Caergybi Ynys Môn**
Côd Post :	**LL65 2SD**
Ffôn:	**01248 751155/07891921671**
Person sy'n gyfrifol am reoli o ddydd i ddydd:	**Ms Kim Aston**
Swydd:	**Arweinydd**

Ynglŷn â'r arolygiad

Cynhaliwyd yr arolygiad fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau o'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant cyn oed ysgol gorfodol yng Nghymru. Fe'i comisiynwyd gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion er mwyn i ddarparwyr allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a helpu plant i gyflawni eu llawn botensial. Diben arall yw hysbysu rhieni a'r cyhoedd am ansawdd addysg feithrin. Rhaid rhoi copi o'r adroddiad arolygu i bob rhiant/gofalwr sydd â phlentyn yn y feithrinfa a dylai fod ar gael ar gais i bobl eraill.

Mae arolygwyr wedi defnyddio graddfa pum pwynt i gofnodi'r holl farnau. Dyma'r diffiniadau graddau:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

1.0 Cyd-destun y lleoliad

Cyd-destun lleoliad y feithrinfa:

Lleoliad dwyieithog cofrestredig yn nhref porthladd Caergybi yw Cylch Meithrin Thomas Ellis. Mae'n rhan o ddarpariaeth Mudiad Ysgolion Meithrin a Phartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Ynys Môn. Disgrifia'r lleoliad yr ardal fel un sydd dan anfantais economaidd gyda chanran uchel o ddiweithdra ac amddifadedd.

Sefydlwyd y lleoliad dros 20 mlynedd yn ôl mewn adeilad dros dro ar safle Ysgol Gynradd y Parch. Thomas Ellis cyn symud yn fuan wedyn i un o ddosbarthiadau'r ysgol. Mae'r adeilad yn olau ac wedi ei gynhesu a'i awyru'n dda. Yn ogystal â'r brif ystafell ddysgu, mae yna ardal celf a chrefft gyda chyfleusterau ymolchi, a thoiledau sy'n cael eu rhannu gydag adran fabanod yr ysgol. Caiff y lleoliad hefyd ddefnydd o iard a chae chwarae'r ysgol, a chyfleoedd rheolaidd i ddefnyddio neuadd yr ysgol. Mae cynlluniau manwl yn eu lle, a cheisiadau grant wedi eu cyflwyno, i wella a datblygu llecyn chwarae caeëdig yn yr awyr agored.

Mae'r adeilad, sy'n addas o ran maint, wedi ei gofrestru ar gyfer 22 o blant tair a phedair mlwydd oed yn y bore, ac 16 o blant rhwng dwy a thair mlwydd oed ar gyfer y cynllun Dechrau'n Deg yn y prynhawn. Darperir sesiynau o ddwy awr a hanner bob bore ar gyfer plant tair a phedair mlwydd oed.

Derbynnir plant o bob gallu a chefndir, yn cynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Ar hyn o bryd, mae 13 o blant ar y gofrestr a derbynnir Cyllid Addysg Gynnar ar gyfer 10 ohonynt. Daw'r plant i gyd o gartrefi lle siaredir Saesneg fel iaith gyntaf, ac nid oes plant o grŵp ethnig lleiafrifol.

Rheolir y lleoliad gan bwyllgor o wirfoddolwyr. Ar hyn o bryd, cefnogir addysg y plant gan bump aelod o staff. Mae gan yr arweinydd a'r ddwy aelod arall o staff parhaol gymwysterau addas mewn perthynas ag addysg a gofal yn y blynyddoedd cynnar, ac mae cymhorthydd sy'n darparu cefnogaeth addysg arbennig un i un yn dilyn cwrs hyfforddiant er mwyn ennill cymhwyster priodol. Caiff myfyrwraig o Goleg Menai 12 awr yr wythnos o brofiad gwaith yn y lleoliad. Yn ogystal, daw Swyddog Iaith Gymraeg o'r Mudiad Ysgolion Meithrin i'r lleoliad am ddau fore bob wythnos i gynnig cymorth ac arweiniad wrth ddatblygu'r defnydd o'r iaith.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Safonau Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Ebrill 2008. Dyma'r tro cyntaf i'r lleoliad gael ei arolygu dan drefn Estyn.

2.0 Prif ganfyddiadau'r adroddiad

2.1 Ansawdd a safonau cyffredinol darpariaeth addysgol a ph'un a yw'r ddarpariaeth yn hyrwyddo'r nodau ar gyfer dysgu plant yn llwyddiannus ai peidio

Mae ansawdd a safonau cyffredinol y ddarpariaeth addysgol yn briodol ac yn hyrwyddo Canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu plant yn llwyddiannus.

2.2 Safonau a gyflawnir gan blant yn y saith maes dysgu

Maes dysgu	Gradd ar gyfer plant o dan bump oed
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol	2
Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu	3
Datblygiad mathemategol	3
Datblygiad yn y Gymraeg	3
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	2
Datblygiad corfforol	3
Datblygiad creadigol	2

2.3 Barn arolygu ar ansawdd yr addysg a ddarperir gan y lleoliad

Ansawdd yr addysg	Gradd ar gyfer plant o dan bump oed
Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant	2
Ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant	2
Ansawdd yr addysgu	2
Ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant, ac adroddiadau ar gyfer rhieni a gofalwyr	3
Ansawdd y berthynas gyda rhieni, gofalwyr a'r gymuned	2
Y cyfraniad a wneir gan y lleoliad i les plant	2
Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad	2
Y cynnydd a wnaed gan y lleoliad wrth weithredu'r materion allweddol ar gyfer gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf	Dim yn berthnasol

3.0 Y safonau a gyflawnir gan blant yn y saith maes dysgu

Safonau a gyflawnir gan blant 3-4 oed a phlant 4-5 oed

3.1 Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Mae datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol y plant yn dda, heb unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da

Mae'r plant wedi ffurfio perthynas dda gyda phlant eraill ac oedolion yn y cylch. Maent yn cyd-chwarae a chydweithio'n dda gan rannu teganau ac offer, ac aros eu tro. Maent yn dewis gweithgareddau chwarae'n hyderus, yn archwilio ac arbrofi'n ddyfal gydag ystod da o wahanol ddeunyddiau ac adnoddau, ac yn gallu canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau priodol wrth gwblhau tasgau.

Mae gan fwyafrif y plant ddealltwriaeth dda o'r gwahaniaeth rhwng ymddygiad da a gwael ac maent yn datblygu hunanreolaeth a dechrau dod yn ymwybodol o gyfrifoldeb. Maent yn datblygu annibyniaeth ac yn gallu gwisgo'u dillad gyda pheth cymorth. Deallant yn dda yr angen i olchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled a chyn bwyta'u byrbryd.

Maent yn ymateb yn gadarnhaol i'r profiadau sy'n cael eu cyflwyno iddynt trwy gyfrwng y Gymraeg. Trwy ddathlu Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gwyl Dewi, maent yn datblygu ymwybyddiaeth dda o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru. Trwy weithgareddau chwarae yn gysylltiedig â'r llyfr stori 'Handa's Surprise', daw'r plant yn ymwybodol o rai agweddau o ffordd o fyw mewn gwlad yn Affrica.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig

3.2 Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

Mae nodweddion da'n gorbwyso diffygion ym medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu'r plant.

Nodweddion da

Mae'r plant yn gwrando'n dda ac yn ymateb yn syth ac yn gywir i gyfarwyddiadau. Maent yn gwybod geiriau ystod dda o rigymau a chaneuon syml.

Maent yn encilio o'u gwirfodd i bori mewn llyfrau yn y gornel ddarllen. Maent yn deall yn dda sut i drin llyfr ac yn mwynhau rhannu llyfr gydag oedolyn.

Maent yn cyfathrebu ar bapur trwy beintio, lliwio a thynnu llun. Maent yn deall bod ystyr i symbolau ac maent yn gwneud marciau ysgrifennu cynnar mewn cyd-destunau perthnasol.

Diffygion

Mae lleiafrif arwyddocaol o'r plant nad ydynt yn trafod eu chwarae yn ddigon hyderus, ac mae eu geirfa a'u patrymau brawddegau yn gyfyngedig.

3.3 Datblygiad mathemategol

Mae nodweddion da'n gorbwyso diffygion yn natblygiad mathemategol y plant.

Nodweddion da

Mae'r plant yn adrodd rhifau hyd at 10 yn rhwydd ac yn gallu cyfrif hyd at bum gwrthrych yn gywir gyda chymorth. Mae'r mwyafrif ohonynt yn gallu adnabod, enwi a chyfatebu symbolau rhif, a threfnu rhifau o un i bump yn y drefn gywir.

Maent yn deall geirfa fathemategol megis mawr/bach, hir/byr, ac yn eu defnyddio'n gywir wrth gymharu, cyfatebu a threfnu modelau a lluniau o ddeinosoriaid.

Mae'r plant yn chwarae gyda siapiau, ac yn adnabod ac enwi rhai siapiau dau ddimensiwn megis cylch, sgwâr a thriongl.

Diffygion

Ychydig iawn o ymwybyddiaeth o bwrpas arian a'r defnydd a wneir ohono sydd gan y plant.

Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y plant o fesurau sylfaenol pwysau, cynhwysedd a chyfaint yn brin.

3.4 Datblygiad yn y Gymraeg

Mae nodweddion da'n gorbwyso diffygion yn natblygiad y plant yn y Gymraeg.

Nodweddion da

Mae'r plant yn gwrando'n dda pan ddarllenir stori Gymraeg iddynt. Maent yn adnabod rhai o'r cymeriadau yn y stori a dangosant ddiddordeb yn y cynnwys. Maent yn deall llawer mwy o eiriau nag y gallant eu siarad ac maent i gyd yn arddangos dealltwriaeth dda o gyfarwyddiadau sylfaenol yn y Gymraeg.

Maent yn ailadrodd rhai geiriau ac ymadroddion cyfarwydd yn y Gymraeg, yn gwybod enwau'r lliwiau yn Gymraeg, ac yn ymuno mewn caneuon actol a rhigymau Cymraeg.

Diffygion

Mae gallu'r plant i gyfathrebu yn y Gymraeg gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion syml yn gyfyngedig iawn.

3.5 Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

Mae nodweddion da a dim diffygion pwysig i wybodaeth a dealltwriaeth y plant o'r byd.

Nodweddion da

Mae'r plant yn gwybod eu bod yn byw ar Ynys Môn a gallant ddangos Caergybi ar fap syml o'r ynys. Trwy ymweld â'r parc lleol a thrwy deithio ymhellach i ymweld â Gorsaf Bŵer Wylfa a'r Sŵ Môr, maent yn dechrau deall am wahanol leoedd.

Trwy weithgareddau chwarae priodol, megis gwisgo dillad Affricanaidd, profi ffrwythau ecsotig, a gwrando ar gerddoriaeth Affricanaidd a'i efelychu, mae'r plant yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fywyd mewn gwlad arall.

Maent yn deall yn dda sut i ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol i dynnu lluniau ac i wneud patrymau. Maent yn rheoli'r 'llygoden' yn dda a gall y plant mwyaf galluog newid lliw a siâp yn annibynnol.

Mae gan y plant ddealltwriaeth dda o drefn dydd-i-ddydd y lleoliad ac maent yn dechrau deall y syniad o orffennol a phresennol.

Trwy chwarae rôl, mae'r plant yn datblygu ymwybyddiaeth o fywyd yng nghyfnod cyn hanes a gall y rhai mwy galluog enwi a disgrifio creaduriaid megis pryfed cop a nadroedd oedd yn byw mewn ogofâu. Maent yn trafod ac yn disgrifio'n frwdfrydig nodweddion gwahanol ddeinosoriaid. Mae'r plant hynaf yn cyfeirio at afonydd, coedwigoedd, mynyddoedd a llosgfynyddoedd wrth ddisgrifio cynefinoedd. Deallant yn dda sut i ddefnyddio llyfrau lluniau fel ffynonellau tystiolaeth.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

3.6 Datblygiad corfforol

Mae gan ddatblygiad corfforol y plant nodweddion da sy'n gorbwyso diffygion.

Nodweddion da

Mae'r plant yn defnyddio offer mawr megis meinciau, matiau a thwnnel yn fedrus a chreadigol. Mae'r mwyafrif ohonynt yn cerdded, cydbwyso, cropian a thynnu eu hunain ar hyd mainc gan arddangos rheolaeth a chydsymudiad da.

Wrth ymateb i gerddoriaeth, maent yn rhedeg, cerdded, ymestyn, plygu a rholio gyda hyder cynyddol. Maent yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau ac yn ymateb yn briodol wrth gymryd rhan mewn gêm syml.

Mae'r plant yn defnyddio offer adeiladu yn ofalus gan arddangos lefel briodol o sgiliau llawdrin manwl. Maent yn gafael yn gywir mewn pensiliau a brwshys paent, ac yn dangos cydweithrediad llaw a llygad da wrth arbrofi gyda gwneud marciau, gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau.

Diffygion

Nid yw medrau corfforol y plant, sy'n gysylltiedig â defnyddio offer a theganau mawr, ac yn arbennig medrau dringo, pedlo a llywio, wedi datblygu'n ddigonol.

3.7 Datblygiad creadigol

Mae nodweddion da a dim diffygion pwysig i ddatblygiad creadigol y plant.

Nodweddion da

Mae'r plant yn gwybod ystod eang o ganeuon syml a rhigymau ar y cof ac maent yn eu canu gyda mwynhad, gan ddynwared symudiadau. Maent yn cymryd rhan yn hyderus mewn gweithgareddau dawnsio creadigol syml.

Maent yn mwynhau chwarae rôl a drama ddychmygol yn y tŷ bach twt ac maent yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o wahanol gymeriadau.

Defnyddiant ystod da o wahanol gyfryngau yn rheoliadd wrth beintio, argraffu, modelu a gwneud collage. Maent yn dewis defnyddiau a lliwiau ac yn arbrofi gyda hyder cynyddol.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

4.0 Ansawdd y ddarpariaeth addysgol

Ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant 3-4 oed a phlant 4-5 oed

4.1 Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant

Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da

Rhoddir cryn bwyslais ar ansawdd y gofal a ddarperir gan y staff, ac mae amcanion clir ar gyfer egwyddorion a gwerthoedd yn cael eu rhannu gyda'r rhieni/gwarchodwyr wrth groesawu'r plant i'r cylch meithrin.

Mae staff yn hyrwyddo gwerthoedd moesol megis gonestrwydd a thegwch trwy holl waith a bywyd dydd i ddydd y lleoliad. Mae gweithgareddau 'amser cylch' rheolaidd yn gwella medrau cymdeithasol y plant, ac yn eu hannog i gydweithio'n dda ac i fod yn ystyriol o deimladau ei gilydd.

Mae'r lleoliad yn darparu profiadau rheolaidd i godi ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau eraill ac i hyrwyddo parch tuag at amrywiaeth, trwy weithgareddau dydd i ddydd a themâu penodol. Caiff y plant eu cyflwyno'n rheolaidd i iaith, traddodiadau a diwylliant Cymru trwy ddysgu ystod dda o ganeuon a rhigymau Cymraeg, dathlu gwyliau yn y calendr Cymreig, a gwrando ar storïau a chwedlau.

Hyrwyddir datblygiad ysbrydol y plant trwy ddathlu gwyliau Cristnogol megis y Nadolig a'r Pasg, a thrwy gynnig gweddi fer o ddiolch cyn eu byrbryd canol bore.

Caiff y plant eu hannog i helpu gyda gorchwylion dyddiol y lleoliad, ac i ddweud 'diolch' pan yn briodol. Mae pob aelod staff yn hyrwyddo ymddygiad da trwy ganmol ac mae'r plant yn ymateb yn dda i'r atgyfnerthu cadarnhaol.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

4.2 Ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant

Mae nodweddion da a dim diffygion pwysig i ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu'r plant.

Nodweddion da

Mae'r rhaglen waith wedi ei chynllunio'n effeithiol i ddarparu parhad a chynnydd yn y dysgu. Mae'n cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n debygol o hyrwyddo canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen oddi fewn ac ar draws pob un o'r saith maes dysgu. Mae'r cynlluniau'n seiliedig ar gyfres o themâu perthnasol sy'n darparu profiadau dysgu diddorol a phwrpasol ar gyfer y plant.

Mae'r rhaglen wedi'i strwythuro'n dda, yn darparu mynediad a chyfle cyfartal i'r holl blant, ac yn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a pharch tuag at amrywiaeth yn llwyddiannus. Mae'n darparu arweiniad effeithiol i aelodau staff, yn ogystal â hyblygrwydd digonol i ymateb i weithgareddau sy'n cael eu cychwyn gan y plant.

Cynllunnir gweithgareddau perthnasol er mwyn sicrhau bod y plant yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r traddodiadau a'r dathliadau sy'n elfennau pwysig o ddiwylliant Cymru.

Mae'r rhaglen yn hyrwyddo'n llwyddiannus ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant a'u llês.

Diffygion

Nid yw'r cynlluniau'n darparu digon o gyfleoedd rheoliadd i'r plant chwarae gyda beiciau a theganau mawr eraill.

4.3 Ansawdd yr addysgu

Mae nodweddion da a dim diffygion pwysig i ansawdd yr addysgu.

Nodweddion da

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth gadarn ac ymarferol o ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Maent yn deall ac yn cydnabod cyrhaeddiad y plant wrth gychwyn yn y lleoliad, ac yn rhoi amser a phwyslais digonol ar ddatblygu eu medrau cyfathrebu a'u medrau personol a chymdeithasol. Maent yn creu amgylchedd dysgu sy'n hapus, yn brysur ac yn bwrpasol.

Mae'r ymarferwyr yn llwyddo'n dda i gadw cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion a'r rhai y bydd plant yn eu dewis ac yn ymateb iddynt ohonynt eu hunain. Maent yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i beidio ymyrryd yng ngweithgareddau chwarae'r plant. Manteisiant ar bob cyfle i

wella ac ymestyn geirfa'r plant; anogir y plant i drafod eu chwarae ac mae'r oedolion yn gwrando, siarad, cwestiynu ac ymateb yn briodol.

Caiff y plant ddewisiadau addas mewn profiadau dysgu ymarferol, ac mae'r ymarferwyr yn eu herio gyda gofal a sensitifrwydd, gan eu hannog i symud eu dysgu ymlaen. Mae gwaith unigol y plant yn cael ei annog, ei barchu a'i werthfawrogi.

Gwna'r ymarferwyr ddefnydd effeithiol ac effeithlon o'r amser a'r adnoddau sydd ar gael iddynt er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau yn cydfynd ag anghenion y plant.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

4.4 Ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant ac adroddiadau i rieni a gofalwyr

Mae nodweddion da'n gorbwyso diffygion yn ansawdd yr asesu a chofnodi cynnydd y plant, ac adroddiadau i rieni a gofalwyr.

Nodweddion da

Mae'r ymarferwyr yn arsylwi'n ofalus a chyson ar y plant wrth eu gweithgareddau chwarae, ac yn defnyddio llyfrynnau unigol a gyflwynwyd ganddynt yn ddiweddar i gofnodi sylwadau arwyddocaol yn y saith maes dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud diagnosis o anghenion dysgu ychwanegol plant yn dda ac yn gweithio'n effeithiol gyda rhieni/gofalwyr a phartneriaid eraill i ddarparu cefnogaeth ychwnaegol i'r plant hyn.

Mae'r staff yn sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant. Rhennir gwybodaeth berthnasol yn anffurfiol gyda'r rhieni yn ddyddiol, ac mae ffotograffau o'r plant wrth eu gweithgareddau chwarae, ac enghreifftiau o'u gwaith yn cael eu harddangos ar ddiwrnod agored. Mae'r arweinydd yn darparu adroddiad ysgrifenedig, sy'n rhoi darlun clir o gyflawniad a chynnydd eu plant yn y saith maes dysgu, ar gyfer rhieni/gofalwyr yn flynyddol.

Diffygion

Nid yw'r wybodaeth a gesglir trwy'r trefniadau asesu yn ddigon manwl i wella'r dysgu a'r addysgu.

4.5 Ansawdd y berthynas â rhieni, gofalwyr a'r gymuned

Mae nodweddion da a dim diffygion pwysig i ansawdd y berthynas â rhieni, gofalwyr a'r gymuned.

Nodweddion da

Mae'r rhan fwyaf o'r plant wedi mynchu'r sesiynau 'Dechrau'n Deg' ar gyfer plant dwy a thair mlwydd oed cyn iddynt gael eu derbyn i'r cylch meithrin, ac o'r herwydd, mae'r rhieni/gofalwyr wedi dod yn gyfarwydd â threfniadaeth y lleoliad ac wedi ffurfio perthynas dda gyda'r ymarferwyr. Mae'r lleoliad yn darparu llyfryn ar gyfer

rhieni/gofalwyr, sy'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am bolisïau, nodau ac amcanion, trefn dydd-i-ddydd, a'r ddarpariaeth addysgol yn y saith maes dysgu.

Mae'r lleoliad yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am themâu cyfredol a gweithgareddau trwy lythyrau rheolaidd a thrwy hysbysiadau sydd ar gael yn rhwydd ar y drws wrth y fynedfa. Er bod rhieni/gofalwyr yn derbyn gwahoddiad i ymweld â'r lleoliad ar ddyddiadau penodol i drafod cynnydd eu plant, mae'r nifer sy'n ymateb yn isel iawn.

Yn yr holiaduron cyn-arolygiad a chyfweliadau anffurfiol, mae'r rhieni/gofalwyr yn unfrydol eu canmoliaeth i'r ddarpariaeth a gynigir gan y lleoliad. Maent yn hapus gyda chynnydd eu plant, ac maent yn mynegi y byddai'n hawdd cysylltu ag aelod staff pe bai ganddynt bryderon. Mae'r rhieni/gofalwyr yn cyfrannu'n dda i'r ddarpariaeth trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian.

Mae gan y lleoliad berthynas waith dda gyda'r ysgol gynradd. Caiff y ddarpariaeth ei chyfoethogi trwy'r defnydd a wneir o dir a neuadd yr ysgol, a thrwy ymweliadau â mannau yn y gymuned.

Diffygion

Nid oes unrhyw diffygion pwysig.

4.6 Y graddau y mae'r lleoliad yn cyfrannu at les plant

Mae nodweddion da a dim diffygion pwysig yn y modd y mae'r lleoliad yn cyfrannu at les y plant.

Nodweddion da

Mae'r plant yn cael eu goruchwylio'n dda bob amser ac mae gan y lleoliad drefniadau diogelwch priodol y mae pawb yn gwybod amdanynt. Mae trefniadau clir ar gyfer ymddygiad diogel ar deithiau a chynhelir asesiadau risg priodol cyn ymweliadau. Ceisir caniatâd rhieni cyn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd, megis profi gwahanol fwydydd, allai fod yn beryglus i rai plant.

Mae gan y lleoliad bolisïau clir a gweithdrefnau sydd wedi eu cofnodi'n dda ar gyfer diogelu plant. Mae pob aelod staff wedi mynychu hyfforddiant arbenigol ar amddiffyn plant, ac yn ymwybodol o'r canllawiau a'r trefniadau gweithredu. Mae gan yr holl ymarferwyr gymhwyster cymorth cyntaf priodol ac mae trefniadau clir ar gyfer ymateb i ddamweiniau.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo bwyta'n iach trwy annog y plant i fwyta dim ond ffrwythau ac i yfed llefrith neu ddŵr adeg byrbryd. Darperir cyfleoedd priodol i wneud ymarfer corff egnïol y tu mewn a thu allan.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

4.7 Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn y lleoliad

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn y lleoliad yn dda heb unrhyw ddiffygion pwysig.

Nodweddion da

Caiff y lleoliad ei reoli a'i drefnu'n dda, ac mae gan yr arweinydd a'r rheolwyr nodau a gwerthoedd priodol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb i bawb. Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol fel tîm, ac maent wedi sefydlu perthynas waith dda gyda'r pwyllgor rheoli, y bartneriaeth lleol a Mudiad Ysgolion Meithrin.

Mae gan yr arweinydd a'r rheolwyr strategaethau effeithiol i gefnogi datblygiad staff ac mae'r holl ymarferwyr yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael iddynt. Mae athrawes gysylltiol blynyddoedd cynnar y bartneriaeth yn cynnig hyfforddiant a chyngor gwerthfawr, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar godi safonau ac ar ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'r staff yn hunan arfarnu, ac mae'r ddogfen gryno a gynhyrchir ganddynt yn arenwi'n glir arferion da ac agweddau i'w datblygu. Defnyddir y wybodaeth yn effeithiol i gynllunio datblygiadau yn y dyfodol ac i osod a chwrdd â thargedau realistig ar gyfer datblygu.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r ystafelloedd dysgu a'r adnoddau sydd ar gael. Defnyddia'r cylch dir yr ysgol a'r amgylchedd lleol yn effeithiol i gyfoethogi profiadau'r plant.

Diffygion

Hyd yma, nid yw'r pwyllgor rheoli wedi llwyddo i oresgyn rhai materion iechyd a diogelwch er mwyn gwneud defnydd effeithiol o'r safle chwarae caeëdig y tu allan i'r lleoliad.

4.8 Y cynnydd a wnaed gan y lleoliad wrth weithredu'r materion allweddol ar gyfer arolygu a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf

Dyma' r tro cyntaf i'r lleoliad gael ei arolygu dan drefniadau Estyn.

5.0 Argymhellion

Mae angen i'r lleoliad:

A1 wella cyflawniad y plant yn y tri maes dysgu lle y nodwyd diffygion;

A2 wella a pharhau i ddatblygu'r trefniadau asesu fel bod yr asesiadau'n dylanwadu ar yr addysgu a'r dysgu;

A3 wella a datblygu'r safle chwarae caeëdig fel adnodd dysgu. *****

* *nodwyd eisoes fel blaenoriaeth yng nghynllun datblygu'r lleoliad*

Rhaid i'r darparwr lunio cynllun gweithredu ymhen 40 diwrnod gwaith, neu 45 diwrnod gwaith os oes angen cyfieithu'r cynllun i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg, gan ddangos sut eir i'r afael â'r materion a nodir uchod. Rhaid rhoi'r cynllun gweithredu i bob rhiant/gofalwr sydd â phlentyn yn y lleoliad. Rhaid anfon copi o'r cynllun gweithredu at Gadeirydd y Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant neu'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, fel y bo'n briodol, ac i'r Awdurdod Lleol. Bydd arfarniad o'r camau a gymerwyd yn ffurfio rhan o'r arolygiad nesaf.